# Geirfa Allweddol

**Allah** - enw Duw yng nghrefydd Islam.
**Ansawdd bywyd** - safon y bywyd y mae person yn ei fyw.
y graddau mae person yn medru bod yn gyfforddus ac allan o boen er mwyn medru gwerthfawrogi bywyd.
**Athronydd** - person sy'n cynnig safbwyntiau neu theorïau ar gwestiynau dwys.
**Caplan** - arweinydd crefyddol sy’n gweithredu mewn sefydliad fel hosbis ac Ysbyty.
**Cenhedliad** - pan fo had y dyn yn ffrwythloni un o wyau’r ferch i ffurfio’r embryo yn y groth.
**Cymhleth** - Rhywbeth sydd ddim yn syml.
**Dydd y Farn** - y diwrnod mewn sawl crefydd ar ddiwedd y byd lle bydd Duw yn barnu pawb.
**Eglwys Babyddol** - yr eglwys sydd a’r Pab yn ben arni ac yn cael ei rheoli o’r Fatican yn Rhufain.
**Embryo** - y cyfnod cychwynnol yn natblygiad plentyn yn y groth i fyny at 9 wythnos.
**Enaid** - y rhan ysbrydol o fod dynol.
**Erthyliad** - Terfyniad bwriadol beichiogrwydd bodyn dynol.
**Ewthanasia** - Cynorthwyo marwolaeth person cyn eu marwolaeth naturiol.
**Ffetws** - y plentyn heb ei eni sy’n datblygu yn y groth. Mae cyfnod y ffetws yn dechrau 9 wythnos ar ôl y cenhedliad ac yn parhau hyd y geni.
**Gemau Paralympaidd** - cyfres o gystadlaethau rhyngwladol ar gyfer athletwyr ag anableddau sy'n gysylltiedig â Gemau Olympaidd yr haf a'r gaeaf ac a gynhelir ar eu hôl.
**Gofal Lliniarol** - yr hyn a wneir i sicrhau fod pobl yn gyfforddus a heb fod mewn poen ar ddiwedd oes.
**Gofal Seibiant** - yr help sy’n cael ei roi er mwyn i’r teulu/gofalwyr arferol gael toriad.
**Gwerthfawr** - Rhywbeth sydd o werth mawr.
**Mabwysiadu** - y weithred gyfreithlon o gymryd plentyn rhywun arall a'i fagu fel eich plentyn eich hun.
**Maethu** - magu plentyn rhywun arall dros dro.
**Mudiad Hosbis** - term am y twf mewn gofal ar ddiwedd bywyd dros y 50 mlynedd diwethaf.
**Salwch Terfynol** - salwch nad oes posib gwella ohono.
**Sancteiddrwydd bywyd** - y gred mai Duw sy’n rhoi pob bywyd.
**Treisio** - ymosodiad rhywiol.
**Y groth** - y rhan o gorff merch lle mae’r ffetws yn tyfu a datblygu.
**Ystyriaeth economaidd** - gwneud penderfyniad ar sail ariannol.